# Disgrifiad Swydd

**Teitl y Swydd:** Lleoliad Cynorthwy-ydd Dihangwyr Gerddi a Gwarchodfeydd Natur

**Yn adrodd i:** Rheolwr y Prosiect Dihangwyr Gerddi a'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr

**Man Gwaith:** Swyddfa Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Llys Garth, Ffordd Garth, Bangor, LL57 2RT. Bydd y swydd yn cynnwys gweithio ledled siroedd Ynys Môn, Conwy a Gwynedd.

**Oriau Gwaith:** 35 awr

**Dechrau:** Bydd y lleoliadau'n para tua naw mis (llawn amser) a dylai'r ymgeiswyr fod ar gael i ddechrau gweithio cyn gynted â phosibl ar ôl eu harholiadau terfynol (e.e. Mehefin 2025).

**Treuliau:** Costau byw o £250 y mis. Bydd cyllideb hyfforddi o £1500 ar gael hefyd. Bydd costau milltiredd yn cael eu talu.

**Prif bwrpas y swydd:**

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cynnig lleoliad cyffrous sydd â dwy agwedd:

1) cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r prosiect Dihangwyr Gerddi (dau ddiwrnod yr wythnos) sy'n ceisio ymgysylltu â garddwyr a rhanddeiliaid allweddol yng Ngogledd Orllewin Cymru i godi ymwybyddiaeth o effeithiau rhywogaethau ymledol ac atebion i arddwyr. Bydd yr agwedd hon yn cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol fel canolfannau garddio ac awdurdodau lleol i archwilio pa rywogaethau ymledol, ac ymledol o bosibl, sy'n bygwth safleoedd gwarchodedig.

2) cynorthwyo ein staff cadwraeth ni (tri diwrnod yr wythnos) gyda rheoli ein gwarchodfeydd natur ar draws Gogledd Cymru gyda'r prif ffocws ar siroedd Ynys Môn, Conwy a Gwynedd. Bydd y tasgau'n cynnwys rheoli cynefinoedd, e.e. clirio prysgwydd gan ddefnyddio celfi llaw a pheiriannau torri llwyni; rheoli rhywogaethau estron ymledol fel y Ffromlys Chwarennog a chreigafal estron; ffensys pyst a gwifren; gwaith arolygu a monitro bywyd gwyllt a helpu mewn digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus ar thema bywyd gwyllt. Mae'r lleoliad yn cynnwys y cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddi perthnasol, e.e. peiriant torri llwyni, llif gadwyn, Cymorth Cyntaf, ac ati hyd at £1500.

Mae swyddi mewn cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn gofyn yn aml bellach nid yn unig am dystiolaeth o sgiliau rheoli tir ymarferol e.e. defnyddio peiriannau torri llwyni, ond hefyd tystiolaeth o sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae'r lleoliad hwn yn gyfle gwych i ddatblygu ystod eang o sgiliau.

I gael gwybod mwy am waith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, ewch i'n gwefan ni.

# Disgrifiad Swydd

## MANYLEB Y PERSON

Mae'r adran hon yn manylu ar y profiad, y sgiliau, y wybodaeth a'r rhinweddau personol sydd eu hangen ar gyfer y swydd.

| Sgiliau, Gwybodaeth, Profiad | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Myfyriwr presennol neu wedi graddio yn ddiweddar | - | |
| Parodrwydd i ddysgu a datblygu | - | |
| Dibynadwy, cyfrifol, llawn cymhelliant ac yn gallu defnyddio blaengaredd | - | |
| Hyder wrth ymgysylltu â'r cyhoedd (sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig) | | - |
| Sgiliau TG (hyfedredd mewn MS Word, Excel a PowerPoint ac Outlook) | | - |
| Trwydded yrru lawn (mae mynediad i gerbyd yn ddymunol) | - | |
| Yn fodlon gweithio yn yr awyr agored mewn pob math o dywydd | - | |
| Y gallu i siarad Cymraeg | | _ |
| Tystysgrif Cymorth Cyntaf | | - |

| Rhinweddau Personol |
|---|
| Hyder gyda'r gallu i gynnal lefelau uchel o frwdfrydedd a hunangymhelliant |
| Y gallu i gyrraedd targedau a chadw at derfynau amser yn effeithiol o dan bwysau, gan barhau i gynnal ansawdd |
| Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun a chydweithio fel rhan o dîm |
| Didwylledd, doethineb a diplomyddiaeth wrth ymdrin â staff, partneriaid, gwirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd |
| Agwedd aeddfed, hyblyg at waith, gan gynnwys bod yn barod i weithio y tu allan i oriau arferol (e.e. penwythnosau) |
| Hoff o fywyd gwyllt, y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol |

**Anfonwch eich CV a datganiad cymhelliant (dim mwy na 500 gair) yn egluro eich addasrwydd ar gyfer y lleoliad hwn a'r hyn rydych yn gobeithio ei elwa ohono at Alex Carey ar:**

**Alex.Carey@northwaleswildlifetrust.org.uk cyn 5 p.m. Dydd Sul 16eg Chwefror, 2025.**

Mae'r gyllideb hyfforddi ar gyfer y lleoliad yma'n cael ei chyllido'n rhannol gan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Mae'n cael ei gyflwyno gan y Gronfa Dreftadaeth, ar ran Llywodraeth Cymru.